



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 25.02.2017

Eisteddfod Ysgol Bro Myrddin 2017

Ar ddydd Gwener yr 17eg o Chwefror 2017, cafodd Ysgol Bro Myrddin eisteddfod eithriadol o lwyddiannus eleni eto. Bu cystadlu brwd rhwng y llysoedd gyda Llwydiarth yn arglwyddiaethu ac yn ennill y dydd. Braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn cael y profiad o fod ar lwyfan yn ystod y dydd a chafwyd llawer o uchafbwyntiau. O ran y cystadlaethau llwyfan, llys Llwydiarth oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth gyntaf y dydd sef yr ensemble llinynnol. Mared Owen o lys Peniarth gipiodd y wobr gyntaf yn yr unawd lleisiol hŷn allan o sioe gerdd.

Meimio i gerddoriaeth llys Peniarth oedd yn fuddugol ond Hergest ddaeth i'r brig gyda'r grŵp lleisiol. Llys Llwydiarth oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y sgets a'r grŵp disgo hŷn.

Hergest a goronwyd y gorau yn y gystadleuaeth fwyaf swnllyd yn sicr sef y grŵp pop. Beca Jones o Lys Hengwrt enillodd y gystadleuaeth unawd lleisiol iau allan o sioe gerdd a grŵp llys Peniarth fu'n

fuddugol yn y gystadleuaeth ddawns werin. Enillwyd cystadleuaeth stori a sain gan Llwydiarth a llys Hergest oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y grŵp dawnsio disgo iau.

Braint ac anrhydedd oedd gweld teilyngdod i'r ddwy gadair a'r ddwy goron. Yn y cystadlaethau hŷn, Garmon Dyfri o lys Peniarth a enillodd y gadair Gymraeg a Rhys Evans hefyd o lys Peniarth enillodd y gadair Saesneg. Yn yr adran iau, Briall Dyfri o lys Llwydiarth oedd enillydd y goron Gymraeg a Rhodri Peters o lys Llwydiarth oedd enillydd y goron Saesneg.





Uchafbwynt y diwrnod oedd gweld pawb yn camu ymlaen ar gyfer cystadleuaeth y côr i ganu 'Y Cwm'. Côr llys Hengwrt a enillodd o dan arweinyddiaeth Phoebe Morgan gyda Sioned Brynon yn cyfeilio.

Datgelwyd ar ddiwedd y dydd taw llys Peniarth a enillodd cystadlaethau'r llwyfan a llys Llwydiarth enillodd y gystadleuaeth gwaith cartref. Cipiwyd tarian yr Eisteddfod gan llys Llwydiarth.

Hoffai'r ysgol gyfan ddiolch o waelod calon i'r beirniad, sef cyn-ddisgybl yr ysgol, Gethin Lewis am ei holl waith caled yn ystod y dydd. Dymunwn ddiolch hefyd i'r chweched a'r penaethiaid llys am

hyfforddi pawb a sicrhau bod y diwrnod yn gymaint o lwyddiant.

Alaw yn Canu'n Disney

Llongyfarchiadau i Alaw Grug Evans o flwyddyn 10. Yn dilyn ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint 2016, mae Alaw yn un o bum perfformiwr ifanc sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli Cymru yn natliadau Gŵyl Ddewi Euro Disney ym Mharis eleni. Mae eisoes wedi treulio diwrnod yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd yng nghwmni trefnwyr yr achlysur o Disney er mwyn dysgu mwy am y digwyddiad. Mae'n ddiolchgar iawn am y cyfle ac yn disgwyl ymlaen at yr achlysur arbennig yma. Bydd Alaw yn treulio pedwar diwrnod yn Euro Disney, lle bydd hi'n mynychu gweithdy unigryw gyda pherfformwyr proffesiynol o'r parc, yn ogystal â chanu unawd a chydganu gyda'r holl berfformwyr i ddathlu'r ŵyl. Edrychwn ymlaen at glywed am ei phrofiad a'r holl helyntion wedi iddi ddychwelyd.



Ensemble cenedlaethol

Llongyfarchiadau i'r canlynol am gael ei derbyn i'r ensemble cenedlaethol

Mared Owen Bl 12 (Côr Ieuenctid Cymru)
 Hannah Richards Bl 12 (Côr Ieuenctid Cymru)
 Daniel O'Callaghan Bl 12 (Côr Ieuenctid Cymru)
 Sioned Beynon Bl 13 (Côr Ieuenctid Cymru)
 Elen Fflur Davies Bl 13 (Côr Ieuenctid Cymru)
 Manon Dafydd Jones Bl 11 (Cerddorfa Ieuenctid Cymru)
 Gwenno Accaioli Bl 13 (Cerddorfa Ieuenctid Cymru)